

CANLLAW I GAEL CYNGOR CYFREITHIOL PRO BONO A CHYNGOR CYFREITHIOL ERAILL AM DDIM YNG NGHYMURU

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r cyngor cyfreithiol sydd ar gael am ddim yng Nghymru, gan ddarparu cyfeiriadur ar gyfer Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd, asiantaethau, ac eraill sy'n awyddus i gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at ffynonellau cymorth.

I gael cymorth ledled Cymru a Lloegr, fel cymorth cyfreithiol neu amrywiaeth o elusennau arbenigol, ewch i'r Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr yn probonoweb.org.uk/guide

Cynnwys:

- Cyfeirio at gymorth cyfreithiol yng Nghymru (tudalen 2)
- *Cyfraith ddatganoledig*: Tai (tudalen 4)
- *Cyfraith ddatganoledig*: Addysg (tudalen 7)
- *Cyfraith ddatganoledig*: Iechyd a gofal cymdeithasol (tudalen 10)
- Clinigau pro bono (tudalen 14)
- Ffynonellau cyffredinol o gyngor rhad ac am ddim (tudalen 17)
- Cyngor ar Bopeth (tudalen 23)
- Adnoddau eraill ar-lein (tudalen 28)

Pwyllgor

Pro Bono

Cymru **Committee for Wales**

PRO BONO WEEK

For an English version see
probonoweb.org.uk/guide

Mehafin 2024

Cyfeirio at gymorth cyfreithiol yng Nghymru

- Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod rhai **meysydd o'r gyfraith wedi'u datganioli** yng Nghymru, gan gynnwys cyfraith tai, addysg, ac iechyd a gofal cymdeithasol (a drafodir yn eu tro isod). Y rheswm am hyn yw bod gan y Senedd y pŵer i basio deddfwriaeth ym mhob maes nad yw wedi'i gadw gan San Steffan.
- Cyn belled ag y bo modd, dylid cyfeirio cleientiaid yng Nghymru at **sefydliadau yng Nghymru**, a fydd yn deall cyfraith ddatganoledig, ac a yw'r gyfraith sy'n berthnasol i gleient yn wahanol i Lloegr.
- Dros y tudalennau canlynol, er mwyn helpu i egluro'r angen i gyfeirio at sefydliad neu gyfreithiwr yng Nghymru mewn meysydd datganoledig, rhoddir arwydd cyffredinol o'r gwahaniaethau â'r gyfraith yn Lloegr, ond nid darparu cyngor cyfreithiol yw'r diben. Yn lle hynny, gweler cyfraith.llyw.cymru.
- Lle nad yw elusen yng Nghymru yn gallu helpu, mae llawer o elusennau yn **Lloegr yn darparu gwasanaethau i'r rheini yng Nghymru** (o leiaf drwy wasanaethau o bell), ond ni fydd gan bob un ohonynt arbenigedd yng nghyd-destun cyfreithiol Cymru. Gweler y [Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr](#). Dylid nodi'n glir mewn unrhyw atgyfeiriad bod y cleient wedi'i leoli yng Nghymru.
- Nid yw'r **system cymorth cyfreithiol wedi'i datganioli**, felly mae'r rheolau'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr, gweler tudalen 13 yn y Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr.
- **Pwysig**: mae'n bosibl nad oes gan ddarparwyr y gallu i gynorthwyo cleientiaid newydd; gweler tudalen 5 yn y Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr am gyfyngiadau gwasanaethau. Yn ogystal â'r ffactorau i'w hystyried wrth gyfeirio a nodir ar dudalennau 6-7 yn y Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr, mae hefyd angen ystyried y canlynol:
 - **Dosbarthiad y boblogaeth**: mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru o amgylch dinasoedd mawr fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, ac mae hynny'n golygu bod gwasanaethau'n cael eu canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn.
 - **Daearyddiaeth a thrafnidiaeth**: mae'r ddaearyddiaeth wledig mewn rhannau helaeth o Gymru yn rhoi mwy o gyfyngiadau ar

alluoedd pobl i deithio er mwyn cael gafael ar gyngor. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd gan rai ardaloedd lefelau uwch o allgáu digidol neu lefelau uwch o amddifadedd.

- **Y Gymraeg:** er mai Saesneg yw'r iaith fwyafrifol yng Nghymru, mae'n well gan lawer o bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae ganddynt hawl i wneud hynny. Felly, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ba wasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg.



TAI (Cymru)

Mae un o brif feysydd deddfwriaeth ddatganoledig yng Nghymru yn ymwneud â thai a chyfraith rhentu. Mae Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 yn golygu bod gan landlordiaid, landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid yng Nghymru rwymedigaethau gwahanol o'u cymharu â Lloegr. Er enghraifft, bydd gan landlordiaid wahanol gamau a chyfrifoldebau gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cyflawni cyn ceisio troi tenant allan neu o ran cadw eu heiddo'n ffit i fod yn gartref.

Felly, dylai cleientiaid yng Nghymru sydd â phroblemau sy'n ymwneud â chyfraith eiddo gael eu cyfeirio at asiantaethau yng Nghymru sy'n arbenigol yn y meysydd hyn.

Ychydig iawn o ffynonellau cyngor tai sydd yng Nghymru; mae'r darparwyr mwyaf wedi'u nodi isod. Ar ben hynny, gweler yr adran ar GLINIGAU PRO BONO isod (tudalen 14) a'r adran CYNGOR AR BOPETH (tudalen 23), a allai hefyd ddarparu cyngor ar dai.

- **AdviceLink Cymru** citizensadvice.org.uk/about-us/our-work/advice-partnerships/advicelink-cymru yw gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cynnig cyngor ar dai, yn ogystal â budd-daliadau lles, dyled, cyflogaeth, addysg, mewnfudo a gwahaniaethu. Cysylltwch â:
 - Llinell gyngor gyffredinol 0800 702 2020.
 - Cyngor ynghylch ôl-ddyledion rhent preifat: 0808 278 7920. (Mae'r ddwy linell yn agored rhwng 9am-5pm o Ddydd Llun i Ddydd Gwener)
- Mae **Gypsies and Travellers Wales** gtwales.org.uk yn rhoi cyngor a chymorth i Sipsiwn a Theithwyr ynghylch llety, digartrefedd, budd-daliadau lles, adolygiadau ac apeliadau cynllunio, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac achosion o wahaniaethu. Mae'n rhedeg llinell gyngor i holl aelodau'r gymuned a darparwyr gwasanaethau sy'n chwilio am gymorth a gwybodaeth ledled Cymru. Cysylltwch â:

- 029 20 214411
- info@gtwales.org.uk
- Mae **Shelter Cymru** sheltercymru.org.uk yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar amrywiaeth o bynciau tai, o ddod o hyd i le i fyw, i ddelio ag amodau tai gwael, a throi allan a digartrefedd. Mae hefyd yn rhedeg 23 o gymorthfeydd cyngor wyneb yn wyneb yn lleol, gweler: sheltercymru.org.uk/housing-advice/advice-near-you Cysylltwch â:
 - Llinell gymorth: 08000 495 495 (9am-4pm Dydd Llun i Ddydd Gwener).
- **Travelling Ahead: Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyngor i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru** tgpcymru.org.uk/cy/beth-rydyn-nin-ei-wneud/travelling-ahead-wales-gypsy-roma-and-traveller-advice-and-advocacy-service/ Mae TGP Cymru yn cynnig cyngor, cymorth ac eiriolaeth unigol a chymunedol gan weithio ochr yn ochr â theuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar faterion fel llety, safleoedd, cynllunio, hawliau a chael mynediad at wasanaethau. Cysylltwch â:
 - 0808 802 0025 / 01633 509 544
 - travellingahead@tgpcymru.org.uk
- Efallai y bydd **timau tai awdurdodau lleol** yn gallu rhoi cymorth i'r rheini sy'n ddigartref neu ar fin dod yn ddigartref. Gellir dod o hyd iddynt yn: llyw.cymru/cymorth-os-ydych-chin-ddigartref-neu-ar-fin-dod-yn-ddigartref
- **The Wallich** thewallich.com yw elusen digartrefedd fwyaf Cymru. Mae cyngor cyfreithiol ar dai, budd-daliadau a chyfraith teulu hefyd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau The Wallich drwy gynllun **Gofal Cyfreithwyr Caerdydd**, partneriaeth â Chlinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru a Chymdeithas y Cyfreithwyr Caerdydd a'r Cylch. Cysylltwch â:
 - 029 20668464
 - mail@thewallich.net.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** ombwdsmon.cymru - gall ymchwilio i gwynion am landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Cysylltwch â:

- 0300 790 0203 (10am-12:30pm, 1:30pm-4pm)
- ask@ombudsman.wales
- Gweler hefyd yr adran TAI ar dudalen 89 yn y [Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr](#) am nodiadau a dolenni ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth am gymorth cyfreithiol.

ADDYSG (Cymru)

Mae cyfraith addysg wedi'i datganoli yng Nghymru. Dylai cleientiaid yng Nghymru a all fod â phroblemau cyfreithiol sy'n ymwneud ag addysg gael eu cyfeirio at asiantaethau neu gyfreithwyr yng Nghymru neu eraill sy'n deall cyfraith addysg Cymru. Y rheswm am hyn yw am fod rhai gwahaniaethau arwyddocaol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, er enghraifft:

- Mae addysg gynradd ac uwchradd yng Nghymru yn symud i'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal â hynny, mae cynlluniau i ailwampio addysg drydyddol.
- Mae gan Gymru ei system ei hun ar gyfer (a) budd-daliadau lles i gefnogi myfyrwyr/eu rhieni ar wahanol lefelau addysg, a (b) i gefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Ar lefel addysg uwch, mae gwahaniaethau mewn cyllid myfyrwyr gyda chyfuniad o fenthyciadau a grantiau i helpu myfyrwyr â'u costau byw, yn ogystal â benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu.
- Mae'r system Anghenion Addysgol Arbennig wedi'i hailwampio yng Nghymru. Mae plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru yn ddarostyngedig i un system ar gyfer pob cyfnod o addysg, o'i gymharu â'r dull amlasiantaeth a ddefnyddir yn Lloegr. Felly, mae ganddynt hawliau a llwybrau gwahanol i herio unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar eu darpariaeth addysgol.
- Yn yr un modd, mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ac addysgol yng Nghymru wahanol rwymedigaethau statudol a gofynion gweithdrefnol i gefnogi'r rheini sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.

Darparwyr cyngor ar gyfraith addysg yng Nghymru:

- **SNAP Cymru** snapcymru.org - mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth annibynnol yn rhad ac am ddim er mwyn helpu i gael yr

addysg iawn i blant a phobl ifanc sydd â phob math o Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anabledau. Mae'n rhoi cyngor a chymorth ar ystod o faterion gan gynnwys asesiadau, cynlluniau addysg unigol, datganiadau anghenion addysgol arbennig, allgau, darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gwahaniaethu. Mae hefyd yn darparu eiriolaeth, datrys anghytundeb, cyngor ar wahaniaethu, eiriolaeth a hyfforddiant i bobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol. Cysylltwch â:

- Llinell gymorth: 0808 801 0608 (9.30am-4.30pm Dydd Llun i Ddydd Gwener).
- **TGP Cymru** tgpcymru.org.uk/cy/ - elusen sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae TGP yn rhedeg amrywiaeth o brosiectau sy'n ymwneud â phlant a chyfraith addysg. Mae TGP yn ddarparwr cofrestredig o wasanaethau eiriolaeth statudol, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac mae'n darparu eiriolaeth statudol i dri rhanbarth yng Nghymru. Cysylltiadau:
 - *Gogledd Cymru*
01286 238 007 / 0800 111 6880
NorthWalesAdvocacy@tgpcymru.org.uk
 - *Canolbarth a Gorllewin Cymru*
01545 574865 / 0808 1682599
midandwestwales@tgpcymru.org.uk
 - *Cwm Taf Morgannwg*
01443 805940 / 0800 4703930
cwmtafmorgannwg@tgpcymru.org.uk
- **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol Cymru** nyas.net
Ers dros ugain mlynedd, mae NYAS Cymru wedi bod yn helpu plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ledled Cymru. Mae'n hyrwyddo eu hawliau ac yn gweithio i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Cysylltwch â:
 - Llinell gymorth: 0808 808 100
 - help@nyas.net.
- Gall **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** ombwdsmon.cymru ymchwilio i gwynion penodol am gyrrff addysg amrywiol yng Nghymru. Cysylltwch â:

- 0300 790 0203.
- Gweler hefyd yr adran ADDYSG ar dudalen 74 yn y [Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr](#) am nodiadau a dolenni ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth am Advocate ac am gymorth cyfreithiol.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (Cymru)

Y maes olaf o gyfraith ddatganoledig yn y Canllaw yw iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai cleientiaid yng Nghymru sydd â phroblemau cyfreithiol sy'n ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol gael eu cyfeirio at asiantaethau neu gyfreithwyr yng Nghymru, neu at eraill sy'n deall cyfraith ddatganoledig. Mae hyn yng ngoleuni'r gwahaniaethau o'i gymharu â Lloegr, er enghraifft:

- Mae strwythur y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn wahanol, gyda GIG Cymru yn darparu gwasanaethau drwy 7 bwrdd iechyd lleol a 3 ymddiriedolaeth GIG.
- Mae dulliau rheoleiddio ac arolygu'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn wahanol, ac mae'n cael ei arwain gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae AGIC hefyd yn un elfen, ynghyd â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, o drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd teiran GIG Cymru sy'n craffu ar sefyllfa pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG.
- Mae gan GIG Cymru Gynllun Gwneud lawn, sydd hefyd yn cael ei alw'n gynllun "[Gweithio i Wella](#)". Dyma ddull o drin ac ymchwilio i gwynion. Fel y nodir yn y [canllaw](#), pan fydd y cynllun yn cael ei ddefnyddio ac y gallai hawliad ddisgwyl cael iawndal o ≤£25,000, mae'r Bwrdd Iechyd yn ariannu cyngor cyfreithiol penodol a ddarperir yn rhad ac am ddim i gleifion gan gyfreithwyr (sy'n arbenigo mewn esgeuluster clinigol fel y'i hachredir gan Gymdeithas y Cyfreithwyr neu AvMA).
- Mae gan Gymru ei fframwaith cyfreithiol ei hun ar gyfer gwella llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae rhai gwahaniaethau cyd-destunol pwysig hefyd sy'n effeithio ar swyddogaethau strategol awdurdodau lleol.

Darparwyr cyngor iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru:

- **Cymorth Eiriolaeth Cymru** ascymru.org.uk/cy/ - mae'n elusen sy'n arbenigo mewn darparu eiriolaeth broffesiynol, gyfrinachol ac annibynnol i unigolion sydd mewn cysylltiad â system gofal iechyd Cymru. Mae'n cynnig gwasanaethau eiriolaeth yn y meysydd canlynol:
 - Gwasanaeth Eiriolaeth Dementia - Adref o'r Ysbyty (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe).
 - Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).
 - Gwasanaeth Eiriolaeth Arbenigol ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistiaeth (ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).
 - Gwasanaeth Eiriolaeth Gymunedol ar gyfer y rheini sy'n derbyn gofal iechyd meddwl eilaidd (ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg).
 - Cysylltwch â:
 - 02920540444
 - info@ascymru.org.uk.
- **Age Cymru** agecymru.org.uk - mae'n darparu cymorth drwy ei linell gyngor aml-sianel a llyfrgell o adnoddau ysgrifenedig. Dyma'r prif ddarparwr gwybodaeth a chyngor i bobl dros 50 oed yng Nghymru, gan gynnwys drwy ageuk.org.uk/cymraeg/age-cymru/gwybodaeth-a-chyngor/ Mae'n darparu cyngor ac nid yw'n gallu darparu cefnogaeth emosiynol. Nid yw'n gallu derbyn atgyfeiriadau gan drydydd partion, felly dylai cleientiaid/etholwyr gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Cysylltwch â:
 - 0300 303 44 98 yn Gymraeg a Saesneg (9am-4pm o Ddydd Llun i Ddydd Gwener)
 - advice@agecymru.org.uk

- Mae partneriaeth **HOPE** (Helpu pobl eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) **Age Cymru** yn darparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn (50+) a gofalwyr ledled Cymru. Cysylltwch â:
 - Gweler cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn ar [wefan HOPE](#).
- **Mencap Cymru** wales.mencap.org.uk/cy - elusen sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru i ddeall eu hawliau o dan gyfraith gofal iechyd. Mae Mencap Cymru yn rhedeg Llinell Gymorth Anabledd Dysgu sydd ar gael i bawb yng Nghymru, a gall ddarparu gwybodaeth gyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau pobl ag anabledd dysgu. Gall Mencap Cymru helpu i gefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau neu herio penderfyniadau. Cysylltwch â:
 - Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru: 0808 8000 300
 - [Ffurflen gyswllt](#) ar y we.
- **Mind Cymru** mind.org.uk/cy/mind-cymru/ - mae'n gweithredu yng Nghymru fel rhan o'r elusen genedlaethol ond mae'n cael ei llywodraethu ar wahân. Mae Mind yn cynnal canllaw defnyddiol iawn ar hawliau iechyd meddwl, anfon i'r ysbty meddwl, gorchmynion triniaeth gymunedol, yr heddlu ac iechyd meddwl ac mae'n rhoi arweiniad ar hawliau cyflogaeth i'r rheini sy'n dioddef gwahaniaethu yn y gwaith oherwydd eu salwch meddwl/anabledd. Hefyd, mae Llinell Gyfreithiol Mind yn rhoi cyngor ar gadw'n gaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gwahaniaethu, galluedd meddyliol a gofal cymunedol (gweler hefyd dudalen 103 yn y Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr). Cysylltwch â:
 - Llinell wybodaeth 0300 123 3393
 - info@mind.org.uk
 - Llinell Gyfreithiol: 0300 466 6463
 - Ewch i'r [wefan](#) i gael manylion yr 16 Mind lleol yng Nghymru.
- **Tenovus** tenovuscancercare.org.uk/cy/hafan - elusen canser sy'n gweithredu yng Nghymru. Gall diagnosis o ganser arwain at gostau annisgwyl; gall tîm Tenovus o gynghorwyr budd-daliadau siarad â chleifion neu eu teuluoedd am ba gymorth ariannol sydd ar gael a'u harwain drwy'r system fudd-daliadau gymhleth. Mae Tenovus hefyd yn rhedeg gwasanaeth ewyllysiau am ddim i'r rheini sy'n dioddef o ganser yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn helpu unigolion i

ddrafftio neu ddiweddarau ewyllys am ddim mewn partneriaeth â chyfreithiwr a all ymweld â'r unigolyn gartref, mewn hosbis neu ysbyty, ar fyr rybudd. Cysylltwch â:

- Llinell gymorth 0808 8081010.

- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

ombwdsmon.cymru - mae ganddo bwerau i ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru. Cysylltwch â:

- 0300 790 0203.

- Gweler hefyd yr adran GOFAL CYMUNEDOL ar dudalen 50 yn y [Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr](#) a'r adran HAWLIAU IECHYD ar dudalen 86 am nodiadau a dolenni ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth am gymorth cyfreithiol.

CLINIGAU PRO BONO (Cymru)

Isod mae manylion rhai o'r clinigau pro bono ar Rwydwaith Clinigau LawWorks yng Nghymru. Gall manylion y clinigau newid, ac mae clinigau newydd yn cael eu datblygu drwy'r amser, felly gallai'r canllaw hwn ddyddio'n gyflym. Defnyddiwch swyddogaeth chwilio am glinigau LawWorks yn lawworks.org.uk/clinics i weld y manylion diweddaraf.

I gael rhagor o wybodaeth am glinigau pro bono yng Nghymru, cysylltwch â lawworkscymru@lawworks.org.uk.

- **ACE - Clinigau Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (Caerdydd)** - Mae *Clinig Cyfraith Plant Cyfreithwyr Watkins & Gunn/ACE* yn cynghori'r rhai yng Nghaerdydd (Trelái a Chaerau) ar faterion sy'n ymwneud â threfniadau preifat ar gyfer eu plant, neu sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'u plant. Mae'r clinig ar agor rhwng 12 a 2pm ar ddydd Mawrth olaf y mis.
 - 02920 003132
 - info@aceplace.org
- **Clinig Cyfraith LHDTC+ lgbtqlawclinic.co.uk** Gall y Clinig roi cyngor a chynrychioli aelodau o'r gymuned LHDTC+ yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Clinig yn rhoi cymorth gyda mewnfudo, cyflogaeth, tai, difenwad, cydnabod rhywedd a chyfraith teulu, ymhlith pethau eraill. Gellir cyflwyno ymholiadau drwy anfon e-bost atom neu drwy'r ffurflen atgyfeirio ar ein gwefan.
 - info@lgbtqlawclinic.co.uk.
- Mae **Clinig Cyfraith Teulu Prifysgol Aberystwyth** yn rhoi cyngor ar drefniadau plant a phreswylid, eiddo ac anghydfodau ariannol ar ôl gwahanu, ysgaru a phartneriaethau sifil, cyngor i neiniau a theidiau a llys-rieni, trais domestig yn erbyn dynion a menywod a gorchmynion camau gwaharddedig a materion cysylltiedig, i'r rhai yng Ngheredigion. Cysylltwch â:
 - famstaff@aber.ac.uk.

- **Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru (Trefforest, Pontypridd).** Gall y clinig roi cyngor a rhywfaint o waith achos ar faterion sy'n ymwneud â theulu, tai, cyflogaeth, busnes, profiant, contractau a chyfraith defnyddwyr i'r rheini yn y gymuned leol. Mae'r clinig yn gweithredu drwy apwyntiad yn unig, gweler y [dudalen we](#). Cysylltwch â:
 - 01443 668600
 - uswlac@southwales.ac.uk
- **Clinig Veterans Legal Link veteranslegallink.org.** Yn gweithredu o Brifysgol Aberystwyth ond ledled y DU, gall y clinig ddarparu cyngor a gwaith achos ar deuluoedd a phlant, trais domestig, trosedd, cynrychiolaeth o orsaf yr heddlu, cyflogaeth, cyfiawnder cymdeithasol, cwynion a'r ombwdsmon, tai a digartrefedd, anafiadau milwrol a gwasanaethau i'r henoed. Cysylltwch â:
 - 0333 090 5387
 - help@veteranslegallink.org
- **Clinig y Gyfraith Abertawe swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/clinigygyfraith/** Gall y clinig roi cyngor ar anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid, anghydfodau yn ymwneud â rhydd-ddaliad a lesddaliad, perthnasoedd yn chwalu, materion cyflogaeth, materion sy'n ymwneud â defnyddwyr, materion cydraddoldeb, cyngor ar fudd-daliadau, cyngor ynghylch contractau a mewnfudo a lloches ar Lefel 1 OISC i'r rhai yn y gymuned leol. Mae amseroedd apwyntiadau'n amrywio - cysylltwch i drefnu apwyntiad:
 - lawclinic@swansea.ac.uk
- **Prosiect Dieuogrwydd Prifysgol Caerdydd <https://www.cardiff.ac.uk/cy/pro-bono/cardiff-university-innocence-project>** Mae'r prosiect yn adolygu achosion lle mae pobl wedi'u cael yn euog o droseddau y maent yn mynnu eu bod yn ddieuog o'u cyflawni, gyda'r nod o wneud apêl y tu allan i'r amser neu gais i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol. Mae rhestr aros ar gyfer y prosiect oherwydd y galw mawr. I gael eu hystyried, gall pobl anfon neges e-bost yn cynnwys amlinelliad o'u hachos ac esbonio pam eu bod yn mynnu eu bod yn ddieuog.
 - innocenceproject@cardiff.ac.uk

- **Prosiect Hawliadau Newydd Prifysgol Caerdydd/Asylum Justice (Ledled Cymru).** Mae'r clinig yn bartneriaeth rhwng uned pro bono Ysgol y Gyfraith Caerdydd ac Asylum Justice, ac mae'n darparu cyngor arbenigol ar fewnfudo i geiswyr noddfa sydd wedi disbyddu eu hawliau apelio ar y rhagolygon o reoleiddio eu statws mewnfudo. Cysylltwch â:
 - s.mcgarrrity@asylumjustice.org.uk

FFYNONELLAU CYFFREDINOL O GYNGOR RHAD AC AM DDIM (Cymru)

Mae'r sefydliadau ychwanegol a restrir isod yn darparu neu'n hwyluso cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim yng Nghymru ar draws gwahanol feysydd o'r gyfraith, ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau eraill.

Gweler hefyd yr adrannau yn y [Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr](#) sy'n rhestru'r cymorth a ddarperir ledled Cymru a Lloegr, sef yr adran CYFFREDINOL gan gynnwys cymorth cyfreithiol (tudalennau 12-25), CYMORTH PRO BONO (tudalennau 26-35) a CHYMORTH AR FATERION PENODOL (tudalennau 36-113).

- **Asylum Justice (cyfraith mewnfudo)** asylumjustice.org.uk. Mae Asylum Justice yn rhoi cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn rhad ac am ddim i geiswyr lloches a mudwyr eraill sy'n methu â chael cymorth cyfreithiol, hyd at Lefel 3 OISC a chynrychiolaeth yn y Tribiwnlys Mewnfudo. Mae'n darparu gwasanaethau ledled Cymru. Cysylltwch â:
 - 02920 499421
 - info@asylumjustice.org.uk.
- **Advocate (pob maes o gyfraith)** weareadvocate.org.uk. Advocate yw elusen y Bar yng Nghymru a Lloegr. Mae Advocate yn dod o hyd i gymorth cyfreithiol am ddim gan fargyfreithwyr gwirfoddol ar gyfer pobl sydd angen cyngor ar achos llys neu gymorth â gwrandawriad ond sy'n methu â chael arian cyhoeddus a ddim yn gallu fforddio talu. Mae Advocate yn gweithredu ar draws pob maes o'r gyfraith a gall helpu ymgeiswyr yng Nghymru i ddod o hyd i fargyfreithiwr pro bono i'w helpu â'u problem gyfreithiol. Mae rhagor o wybodaeth am Advocate ar dudalennau 27-32. Cysylltwch â:
 - 020 7092 3960 (neges llais yn unig)
 - enquiries@weareadvocate.org.uk.
- **Canolfan Gyfraith Speakeasy (cyfraith cyflogaeth, budd-daliadau lles, cyfraith dyledion, cyfraith tai)** speakeasy.cymru/cym. Canolfan Gyfraith Speakeasy yw unig

Ganolfan y Gyfraith yng Nghymru (ar hyn o bryd). Mae'r ganolfan yng Nghaerdydd, ac mae'n darparu cyngor a chymorth cyfreithiol yn rhad ac am ddim am ddim ar feysydd budd-daliadau lles, dyled a chyfraith tai. Mae'r Speakeasy hefyd yn rhedeg clinig cyflogaeth pro bono sy'n cynnig cyngor un-tro yn rhad ac am ddim gan gyfreithwyr lleol. I fod yn gymwys am gymorth, rhaid i ymgeisydd fod wedi'i leoli yn Ne Cymru, neu fod yn byw yno. Cysylltwch â:

- 029 2045 3111
- info@speakeasy.cymru.

- **Clinig y Gyfraith Gogledd a Chanolbarth Cymru**

citizensadviceynysmon.com - mae'n darparu cyngor a chymorth gyda materion cyfreithiol sy'n ymwneud â theulu, cyflogaeth a gofal cymunedol. Bydd yn nodi materion eilaidd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: dyled, tai, ynni, cyllidebu, iechyd meddwl, a budd-daliadau lles (darperir cyngor a chymorth yn y meysydd hyn a/neu bydd yn cyfeirio at sefydliad perthnasol a all helpu pan fo angen). Cysylltwch â:

- 01407 762278
- AngleseyCA@gmail.com

- **Comisiynydd Plant Cymru** complantcymru.org.uk. Mae'r gwasanaeth cyngor ac ymchwilio ar gael yn rhad ac am ddim. Mae'r Comisiynydd ar gael i gynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rheini sy'n gofalu amdanynt os ydynt yn teimlo bod plentyn wedi cael ei drin yn annheg. Cysylltwch â:

- 0808 801 1000
- post@childcomwales.org.uk.

- **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** Gall y comisiynydd roi cyngor a chymorth drwy:

- 03442 640 670
- ask@olderpeople.wales

- **Cwmni Buddiannau Cymunedol Cyfraith Qualia (cyfraith llysgwarchod)** qualia-law.org/cy Cwmni Buddiannau Cymunedol di-elw sy'n darparu cyngor cyfreithiol am ddim, yn ogystal â sesiynau hyfforddiant, a Dirprwyaeth y Llysgwarchod gan gyfreithwyr. Mae Qualia yn darparu cyngor am ddim ar faterion galluedd meddyliol a

diogelu ariannol; hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth am ddim i weithwyr proffesiynol yn y sector gofal cymdeithasol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector; a Dirprwyaeth y Llys Gwarchod. Cysylltwch â:

- 0333 3053057
- info@qualia-law.org

- **Cyngor Ffoaduriaid Cymru (mewnfudo, tai, budd-daliadau)**

wrc.wales. Mae'r WRC yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid ar adegau mwyaf tyngedfennol eu bywydau. Mae ei waith yn galluogi pobl sydd wedi cael eu gorfodi i geisio lloches i gael eu traed danynt a dechrau adeiladu bywyd yng Nghymru. Gall y WRC helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddod o hyd i le i aros, gweithio i gynnal eu hunain, cael mynediad at ddosbarthiadau Saesneg, cyngor cyfreithiol, a rhwydweithiau cymunedol. Mae'r WRC yn gweithredu "Gwasanaeth Lloches" sy'n helpu Ceiswyr Lloches i ddeall eu hawliau ac mae'n rhoi cefnogaeth a chyngor cyfreithiol am ddim iddynt ar adegau allweddol ar eu taith. Cysylltwch â:

- 0808 196 7273
- Mae manylion y swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam ar gael yn wrc.wales/contact/our-offices

- **Cyfraith Gymunedol y Gogledd (Cyfraith Tai) nwcl.cymru** Mae Cyfraith Gymunedol y Gogledd yn elusen annibynnol yng Nghyffordd Llandudno, Conwy. Ar hyn o bryd mae'n darparu cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim ar faterion tai. Mae'r sefydliad wedi'i leoli o fewn gwasanaeth cam-drin domestig ac mae'n datblygu arbenigedd mewn gwaith achos sy'n ymwneud â chroestoriad cam-drin domestig a materion tai. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl yn unrhyw un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae cyfarfodydd â chleientiaid yn cael eu cynnal yn ein swyddfeydd, mewn manau cymunedol o amgylch y rhanbarth ac ar-lein, yn dibynnu ar anghenion y cleient. Cysylltwch â:

- 01492 484818
- info@nwcl.cymru

- **Cymorth Cynllunio Cymru (cyfraith cynllunio)**

planningaidwales.org.uk. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnig gwasanaeth Llinell Gymorth yn rhad ac am ddim i helpu aelodau

cymwys o'r cyhoedd a grwpiau cymunedol sydd angen help gyda mater cynllunio. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn nodi, cyn iddynt gynnig cyngor, eu bod yn gwahodd galwyr i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael am ddim ar y wefan i weld a oes ateb yno i'w hymholiad. Cysylltwch â:

- Llinell gyngor: 02920 625 000
- info@planningaidwales.org.uk

- **Cymorth i Ferched Cymru (cam-drin domestig/trais)**

welshwomensaid.org.uk/cy/ - mae'n rhedeg gwasanaethau cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod ledled Cymru. Mae'n cynnig ystod o gefnogaeth i fenywod (a phlant) sy'n dioddef, neu sydd wedi dioddef, trais domestig. Mae'n darparu eiriolaeth a chefnogaeth unigol, cwnsela, grwpiau cefnogi yn ogystal â mynediad ac loches ac opsiynau llety diogel eraill. Mae llawer o wasanaethau'n cynnal sesiynau galw heibio y gall pobl fynd iddynt i siarad am eu sefyllfa a chael rhywfaint o gymorth ac arweiniad cychwynnol. Cysylltwch â:

- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn (24 awr): 0808 80 10 800
- info@livefearfreehelpline.wales
- I ddod o hyd i wasanaethau cymorth arbenigol ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ewch i welshwomensaid.org.uk/cy/information-support/find-your-local-service/

- **Maggie's (ewyllysiau) maggies.org**. Mae Maggie's yn darparu cymorth arbenigol yn rhad ac am ddim i bobl â chanser a'u teuluoedd mewn canolfan galw heibio bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys cymorth seicolegol, emosiynol ac ariannol. Mae gan Maggie's ddwy ganolfan yng Nghymru (Caerdydd ac Abertawe) ac mae'n cynnig cymorth i ysgrifennu ewyllysiau. Mae Maggie's hefyd yn cynnig cyngor ar fudd-daliadau ar-lein, cymorth canser ac apwyntiadau seicolegol ochr yn ochr â nifer dethol o sesiynau cymorth grŵp. Cysylltwch â:

- Caerdydd: 029 2240 8024
- cardiff@maggies.org
- Abertawe: 01792 200 000
- swansea@maggies.org.

- Mae **Meic** meiccymru.org yn wasanaeth llinell gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Cysylltwch â:
 - 080880 23456
 - I gael dulliau eraill o gysylltu, ewch i meiccymru.org
 - 01492 484818
 - info@nwcl.cymru
- **Riverside Advice (budd-daliadau lles, tai, dyledion ac effeithlonrwydd ynni)** riverside-advice.co.uk. Mae Riverside Advice yn darparu cyngor cyfreithiol annibynnol a diduedd yn rhad ac am ddim ym meysydd budd-daliadau lles, tai, dyledion a chyfraith ynni. Mae Riverside Advice yn gweithio gydag unigolion agored i niwed a'r rheini sydd ag iechyd meddwl gwael, sy'n wynebu problem gyfreithiol yn gysylltiedig â'r meysydd a restrwyd eisoes. Mae Riverside Advice yn gweithredu ledled Caerdydd ond gall gynorthwyo pobl mewn unrhyw ran o Gymru. Cysylltwch â:
 - 02920 341577
 - all.info@riverside-advice.co.uk
- **Settled (Mewnfudo, tai a budd-daliadau lles)** settled.org.uk. Dyma elusen a sefydlwyd yn 2019 ac sydd â'i phencadlys yng Nghasnewydd; mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE, gan gynnwys pobl sy'n hwyr yn gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), neu rai sydd wedi cael gwrthod eu cais, neu sy'n symud o statws preswlydd cyn-sefydlog i statws preswlydd sefydlog unwaith y byddant yn gymwys. Mae'r elusen hefyd yn darparu cymorth pan fydd pobl yn cael trafferth profi eu statws mewnfudo neu gael mynediad at hawliau a gwasanaethau. Gall y rhain gynnwys yr hawl i ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â nhw yn y DU, a chael budd-daliadau lles, gofal iechyd, ac ati. Cysylltwch â:
 - Llinell gymorth 0330 223 5336 (mae opsiynau iaith gwahanol ar gael).
 - advice@settled.org.uk (ar gyfer ymholiadau cyffredinol).
 - roma.advice@settled.org.uk (ar gyfer pobl Roma).
 - ApplyEUSSWales@settled.org.uk (y rheini sy'n byw yng Nghymru ac sy'n gwneud cais am statws preswlydd cyn-sefydlog neu statws preswlydd sefydlog).

- **Support Through Court (cymorth emosiynol a gweinyddol yn y llys sifil)** supportthroughcourt.org/locations/cardiff Gweler tudalen 25 yn y Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae STC yn gweithredu un ganolfan yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caerdydd. Os bydd unigolyn yn wynebu llys heb gyfreithiwr yng Nghaerdydd, gall STC helpu ar bob cam. Mae gan STC wirfoddolwyr sy'n gallu cefnogi pobl o bell ac mewn atudalenpwyntiadau yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Os oes angen cymorth technegol ar rywun neu fynediad at gyfleusterau TG ar gyfer gwrandawiadau o bell, gall gysylltu â ni i gael gwybod sut gall STC helpu. Cysylltwch â:
 - 0292 277 0348 (nid yw'r llinell yn derbyn galwadau o rifau sy'n cael eu cuddio)
 - cardiff@supportthroughcourt.org

CYNGOR AR BOPETH (Cymru)

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn rhedeg **Advicelink Cymru**, sef gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cynnig cyngor i bobl yng Nghymru am fudd-daliadau lles, dyledion, cyflogaeth, addysg, tai, mewnfudo a gwahaniaethu: 0800 702 2020.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn cynnig y llinellau cymorth canlynol sy'n agored yn gyffredinol o ddydd Llun i ddydd Gwener:

- Llinell gymorth i ddefnyddwyr: 0808 223 1133.
- Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi (hawl i fudd-daliadau): 0808 250 5700.
- Help i Hawlio (Credyd Cynhwysol): 08000 241 220.
- Llinell Gymorth Clefyd Niwronau Motor: 0808 801 0620.
- Llinell Gymorth Dyledion y Sector Rhentu Preifat: 0808 278 7920.

Darperir cyngor hefyd yn lleol gan elusennau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru - mae'r rhain wedi'u rhestru isod yn ôl ardal. Mae lleoliad y swyddfeydd wedi'i nodi mewn cromfachau os yw'n wahanol i enw'r ardal. Efallai na fydd yr wybodaeth am gwmpas y gwasanaethau wedi cael ei diweddarau, neu fe all fod yn anghywir, felly dylech holi'n uniongyrchol. I ddod o hyd i'ch cangen Cyngor ar Bopeth lleol yn ôl cod post neu dref, ewch i citizensadvice.org.uk/cymraeg/

- **Abertawe Castell-nedd Port Talbot** citizensadvicesnpt.org.uk. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol ar fudd-daliadau lles a dyledion; a chyngor ar gyflogaeth, tai, mewnfudo, gwahaniaethu, ac arian. Cysylltwch â:
 - 0808 278 7926
- **Caerdydd a'r Fro (Caerdydd a'r Barri)** cacv.org.uk. Mae'n darparu cyngor ar fudd-daliadau, cyflogaeth, dyledion, mewnfudo (Lefel 1 OISC yn unig), defnyddwyr, teulu (gan gynnwys cynhaliath plant) a thai. Cysylltwch â:
 - Gwasanaeth Advicelink Caerdydd a'r Fro 0808 278 7925

- **Caerffili (Bargoed, Caerffili, lleoliadau eraill)** citizensadvicecbg.org.uk/. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol ar fudd-daliadau lles a dyledion; canllawiau ar faterion ariannol; a gwybodaeth am gyflogaeth, tai, mewnfudo a gwahaniaethu. Cysylltwch â:
 - 0800 702 2020.
- **Casnewydd** newportca.org.uk. Mae'n darparu cyngor arbenigol ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys budd-daliadau, dyledion, cyflogaeth a gwahaniaethu. Cysylltwch â:
 - 01633 222622.
- **Ceredigion (Aberteifi)** cabceredigion.org. Gwasanaeth cynghori sy'n helpu cleientiaid gydag amrywiaeth o ymholiadau gan gynnwys ynni, defnyddwyr, dyledion a budd-daliadau (mewn gwaith a lles). Maen nhw'n gweithio o bell ond mae ganddyn nhw leoliadau allgymorth ledled y sir hefyd, ac maen nhw'n cynnig ymweliadau cartref gyda rhai o'u prosiectau. Cysylltwch â:
 - 01239 621974
 - enquiries@cabceredigion.org
- **Conwy (Llandudno)**. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol yn ymwneud â budd-daliadau lles a dyledion; a chyngor ar gyflogaeth, tai, mewnfudo, gwahaniaethu, ac arian. Cysylltwch â:
 - 01745 828705
 - advicecyngor@caconwy.org.uk
- **Gwynedd (Caernarfon)** cabgwynedd.cymru. Mae'n cynnig gwaith achos arbenigol ar fudd-daliadau lles, arian a dyledion; cyngor â gwaith achos ar gyflogaeth a thai; a chyngor ar fewnfudo a gwahaniaethu. Cysylltwch â:
 - 0808 27 87 922
- **Merthyr Tudful** citizensadvicemt.org.uk. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol yn ymwneud â budd-daliadau lles a dyledion; a chyngor ar gyflogaeth, tai, mewnfudo, gwahaniaethu, ac arian. Cysylltwch â:
 - Ewch i citizensadvicemt.org.uk/contact

- **Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg)** citizensadvice.org.uk/cymraeg/local-member/bridgend-county-borough Cyngor a gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys budd-daliadau a hawliau lles, materion defnyddwyr, hawliau cyflogaeth a thai, materion cyfreithiol, arian a dyledion. Gwaith achos ar fudd-daliadau. Cynrychiolaeth mewn tribiwnlysoedd apêl nawdd cymdeithasol. Cysylltwch â:
 - 01656 762800.

- **Powys (Aberhonddu)** powyscitizensadvice.org.uk. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol ar fudd-daliadau lles, arian a dyledion, cyngor â gwaith achos ar gyflogaeth; a chyngor ar dai, mewnfudo a gwahaniaethu. Mae cyngor ar gael yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac mewn sawl iaith gymunedol. Cysylltwch â:
 - 0345 601 8421.

- **Rhondda Cynon Taf (Pontypridd, Abergennar)** carct.org.uk Mae'n darparu cyngor ar gyflogaeth, tai, gwahaniaethu, arian, canllawiau ar fewnfudo, a gwaith achos arbenigol ar ddyledion a budd-daliadau lles. Mae cyngor ar gael yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac mewn sawl iaith gymunedol. Cysylltwch â:
 - 01443 409284
 - enquiries@carct.org.uk.

- **Sir Benfro (Doc Penfro)** pembscab.org. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol yn ymwneud â budd-daliadau lles a dyledion; cyngor â gwaith achos ar gyflogaeth a gwahaniaethu ac arian; cyngor ar dai; a gwybodaeth am fewnfudo. Cysylltwch â:
 - 01437 806070
 - advice@pembscab.org

- **Sir Ddinbych (Rhuthun)** cadenbighshire.co.uk/hafan. Mae'n darparu gwaith achos arbenigol sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, cyngor ariannol, dyledion; cyngor a gwaith achos ar gyflogaeth a thai; a gwybodaeth am fewnfudo a gwahaniaethu. Mae'n cynnig gwasanaeth dwyieithog a gall hefyd gynnig cymorth mewn nifer cyfyngedig o ieithoedd cymunedol. Cysylltwch â:
 - 0808 278 7933, 0808 278 7933

- advice@dcab.co.uk
- **Sir y Fflint (Yr Wyddgrug)** flintshirecab.org.uk/cy/. Mae'n darparu cymorth ynghylch dyledion ac arian, cyngor ar fudd-daliadau, cyngor ar ynni, a gwaith a gwahaniaethu, iechyd meddwl, cyngor i ddinasyddion yr UE. Cysylltwch â:
 - 0808 278 7923
- **Sir Fynwy (Trefynwy, Cil-y-coed, Cas-gwent, Y Fenni)** citizensadvice.org.uk/local/monmouthshire-county Mae'n darparu cyngor a gwaith achos ar fudd-daliadau lles a dyledion; a chyngor ar gyflogaeth, tai, gwahaniaethu, mewnfudo ac arian. Cysylltwch â:
 - 03444 77 20 20
- **Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin)** carmarthenshire-ca.org.uk. Mae'n darparu cymorth arbenigol yn ymwneud â budd-daliadau lles a dyledion, yn ogystal â chyngor ar effeithlonrwydd ynni, a chymorth i hawlio Credyd Cynhwysol. Cysylltwch â:
 - Gwasanaeth ffôn ar gyfer cyngor cyffredinol: 01269 592267, 01267 234488, 01554 759626
 - advice@carmarthenshire-ca.org.uk
- **Torfaen (Pont-y-pŵl, Cwmbrân)** catorfaen.org.uk. Mae'n darparu cyngor a gwaith achos ar fudd-daliadau lles, dyledion, cyngor i ddefnyddwyr, cyflogaeth, tai ac arian; a gwybodaeth am fewnfudo. Mae swyddfeydd ym Mhont-y-pŵl, Cwmbrân ac mewn canolfannau allgymorth ym Mlaenafon a Threfddyn. Cysylltwch â:
 - 01633 876121
 - reception@catorfaen.org.uk
- **Wrecsam** wrexhamcitizensadvice.com Mae Cyngor ar Bopeth Wrecsam yn darparu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd ar unrhyw fater sy'n cael ei ddwyn i'n sylw, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae yno gynghorwyr arbenigol sy'n rhoi arweiniad ar faterion mwy cymhleth fel problemau ariannol, ymholiadau am fudd-daliadau, dyledion ac ymholiadau ynni. Cysylltwch â:
 - 0300 330 1178
- **Ynys Môn** citizensadvice.org.uk/cymraeg/local-member/ynys-mon/ Mae'n darparu cyngor arbenigol a gwaith achos ar y canlynol: budd-

daliadau lles, cyflogaeth, tai, arian a dyledion, a chyingor ar fewnfudo a gwahaniaethu. Cysylltwch â:

- 0808 278 7932

ADNODDAU ERAILL AR-LEIN

Cyfeiriaduron penodol i Gymru:

- dewis.cymru - gwefan sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw dod â gwybodaeth am les at ei gilydd - gan gynnwys iechyd, cymuned, diogelwch a mwy.
- infoengine.cymru/?lang_redirect=true - gwefan sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n rhestru gwasanaethau trydydd sector yng Nghymru.
- adferiad.org/cym/ein-gwasanaethau/ Mae Adferiad (CAIS gynt) yn dod â nifer o wasanaethau at ei gilydd sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth megis iechyd meddwl a phroblemau defnyddio sylweddau.
- ombwdsmon.cymru/gwneud-cwyn/cyrff-cyngor-ac-eiriolaeth-3/ Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cadw rhestr o sefydliadau sy'n darparu cyngor ac eiriolaeth yng Nghymru.

Canllawiau ar-lein:

- Cyngor ar gostau byw Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/help-gyda-chostau-byw
- Llyfrgell Adnoddau Rhentu Doeth Cymru: rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/
- Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru: childrenslegalcentre.wales/cy/adnoddau/
- Gweithdrefn Diogelu Cymru Gyfan: diogelu.cymru/cy/
- Dangos dangos.cymru - prosiect i'ch helpu i ddangos i bobl eraill bod llawer o ffyrdd, yng Nghymru, i wella eu sefyllfa ariannol, a sut i leddfu eu pryderon ynghylch hawlio.

Lluniwyd y canllaw hwn ar gyfer Cymru gan aelodau o **Bwyllgor Pro Bono Cymru / Pro Bono Committee for Wales**
probonocommittee.wales.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol, y sector cynghori elusennau, ysgolion y gyfraith a'r farnwriaeth. Mae wedi ymrwymo i hyrwyddo dull cydgysylltiedig o ymdrin â pro bono yng Nghymru. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cael ei chynnal ar y cyd gan LawWorks Cymru ac Advocate.

Ymwadiadau: gweler tudalen 4 yn y [Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr](#).

Cywiriadau / ychwanegiadau? Anfonwch y rhain i guide@probonoweek.org.uk.